UBC BUW

Y Negesydd

Rhif 23

Gwanwyn 2022

www.ubc.cymru

Cenhadon i Gymru

Defnydd newydd i adeilad capel

Dod i nabod: Ann Bowen Morgan

Croeso...

Golygyddol 2

Nodiadau Cenhadol 3

Blwyddyn o dwf 4

Defnydd newydd i adeilad capel 5

Newyddion Cymru 6

Newyddion y Byd 7

Dod i nabod: Ann Bowen Morgan 8

'Codwyd Crist! Fe'i codwyd yn wir!'

Mae'r datganiad llawen hwn adeg y Pasg wrth wraidd y ffydd Gristnogol. Dyma fynegi'r sicrwydd mai Iesu, a orchfygodd bechod a marwolaeth ar groes Calfaria, yw blaenffrwyth bywyd yr atgyfodiad i ddod. Fe'n hatgoffwyd yn y ffordd fwyaf sobr o bwysigrwydd y gobaith hwnnw am fywyd tragwyddol gan yr erchyllterau ofnadwy yn Wcráin, sy'n gartref i 2 filiwn o Fedyddwyr. Mae eu gwydnwch a'u haelioni wrth ddefnyddio eglwysi fel mannau lloches, a'u hapel i weddill teulu'r Bedyddwyr ledled y byd i weddïo, oherwydd 'bydd Duw yn gwneud ei waith' wedi bod yn destun ysbrydoliaeth i gymaint ohonom. Ar adeg ysgrifennu hyn o eiriau, mae nifer o ffyrdd y gall eglwysi yma gefnogi pobl Wcráin, yn ariannol (e.e. apêl Wcráin BMS) a thrwy letygarwch. Rhowch wybod os ydych yn meddwl y gall eich eglwys gyfrannu yn ymarferol - carwyn@ubc.cymru.

Mae'r un Duw sydd, fe hyderwn, yn ateb gweddïau yn Wcráin ar waith hefyd yn ein plith yng Nghymru. Yn y rhifyn hwn rydym yn adrodd hanes cam mentrus a gymerwyd mewn fydd gan y capeli yn Llangefni, yr hyn a ddigwyddodd nesaf yn stori ein Tîm i Gymru diwethaf, y rhaglen VISA bresennol sy'n dod â chenhadaeth o'r byd i Gymru, a chawn sgwrs ag un o'n hymddiriedolwyr gweithgar.

Nodwch hefyd bod modd bellach i chi gael diweddariadau mwy rheolaidd ar yr hyn sy'n digwydd ar draws UBC trwy ein he-bost newyddion misol newydd, 'Pigion' (ar gael yn Gymraeg neu yn Saesneg). Ewch i www.ubc.cymru/pigion a llenwch eich enw a'ch cyfeiriad e-bost.

Yn olaf, os oes gennych adborth neu awgrymiadau i'w cynnwys yn y Negesydd yn y dyfodol, e-bostiwch carwyn@ubc.cymru

Carwyn Graves, Golygydd (ar ran staff UBC)

ON Nodwch ddyddiadau Cynhadledd eleni - 24/25 Mehefin, Caerfyrddin. Croeso i bawb!

Nodiadau Cenhadol - cenhadon i Gymru

Ar ddiwedd y 19eg ganrif anfonodd Cymru rai o'i meibion a'i merched gorau i wasanaethu fel cenhadon i diroedd pellenig ymhell cyn oes yr awyren. Cymaint oedd eu hargyhoeddiad, yr oeddent yn barod i adael popeth er mwyn rhannu efengyl Iesu â'r rhai nad oedd erioed wedi ei glywed. Mae straeon anhygoel am bobl fel Timothy Richards, Ffaldybrenin, Robert Jermain Thomas, Rhaeadr Gwy a David Evan Jones o Landderfel yn dal i gael eu hadrodd heddiw.

Yn awr yn 2022 mae gweithwyr cenhadol yn dod o weddill y byd i ni yng Nghymru. Dros y tair blynedd diwethaf mae Undeb Bedyddwyr Cymru wedi bod yn ymateb i nifer cynyddol o bobl sy'n teimlo eu bod yn cael eu galw i Gymru o dramor. Sungsu a Nana Paek oedd y cyntaf i gyrraedd o dan y cynllun hwn a daethant gyda'u tair merch o Seoul yn Ne Korea. Ar hyn o bryd maent yn byw yn Llanelli ac yn cefnogi'r weinidogaeth yn eglwys Hope/ Gobaith. Roedd gan Anna Ketchum gysylltiadau cryf â Phenuel, Caerfyrddin ac mae nawdd VISA wedi caniatáu iddi weithio gyda'r eglwys am gyfnod hirach. Cyrhaeddodd Jeff a Linda Kim o Los Angeles yn 2021 ac maent bellach wedi'u lleoli o fewn Cymdeithas Gwent yn ceisio ewyllys Duw i wasanaethu eglwys yn y rhanbarth hwnnw. Yr ydym hefyd yn gobeithio y bydd Phil Wyman yn gallu ymuno â ni yma yng Nghymru cyn yr haf. Bydd Phil wedi'i leoli gyda Chaersalem, Caernarfon ond bydd ganddo hefyd weinidogaeth arloesol ehangach a fydd yn helpu ein heglwysi i feddwl am gyrraedd y mwyafrif o bobl sy'n gweld Cristnogaeth fel rhywbeth yr ydym wedi'i anghofio a'i adael ar ôl yma yng Nghymru.

Ymhell cyn i'r cynllun noddi VISA yma ddechrau, cafodd rhai o'n heglwysi y fraint o groesawu cenhadol am nifer o flynyddoedd, a hynny er budd mawr. Pobl fel Peter & Hyeran Cho yn Nhrecelyn, Mike & Mary Bave yn Noc Penfro, Trey ac Amelia McCain ym Mhenygroes, Isaias Grandis yn Llanelli, David Campbell yn Nhreffynnon a Rob ac Andrea Filgate a ddychwelodd i Ganada o Aberteifi yn ddiweddar. Mae'r bobl hyn yn rhodd wrth Dduw, a maent yn dod â phrofiadau a safbwyntiau gwahanol i'r rhai ohonom sydd ddim ond wedi profi arferion Cristnogol Cymreig neu Brydeinig.

Fel pob gwaith cenhadol da, mae'r buddsoddiad o amser ac egni y mae'r bobl hyn yn ei wneud yn ein cyd-destunau yn galw am aberth. Mae'r bobl hyn i gyd yn dod i Gymru gyda chefnogaeth weddï ac ariannol wrth ffrindiau, teulu ac eglwysi. Maent yn treulio amser yn dysgu diwylliant a iaith newydd ac yn ymroi yn ddi-droi'n-ôl i gefnogi gwaith Duw yma yng Nghymru. Ac mae angen gwneud addasiadau bob amser, ar ran y gweithiwr newydd a'r eglwys sy'n derbyn.

Mae Cymru heddiw yn lle gwahanol iawn i' un a adawodd Timothy Richards i fynd i China. Nawr mae angen mwy nag erioed arnom i rannu gyda phobl yng Nghymru sy'n gwybod yr holl eiriau i 'Bread of Heaven' ond sydd heb flasu'r bara byw. Rydym yn ddiolchgar i Dduw am bawb sy'n dod i wasanaethu a thystiolaethu yma yng Nghymru a gofynnwn i chi weddïo drostynt hefyd.

Simeon Baker

Ble maen nhw nawr?

Yn ôl yn 2018-2019 cawsom Dîm i Gymru gwych ar leoliad yn Arfon, Gogledd Cymru. Dyma ni'n penderfynu dal i fyny gydag Eleri, Gruff a Hannah i weld lle mae Duw wedi eu harwain ers bod ar y tîm...

Helo! Mae'n wych cael bod gyda chi i gyd! Dywedwch wrthym ni'n gyntaf be wnaethoch chi nesa ar ôl bod yn rhan o Dîm i Gymru?

G: Roeddwn i'n ansicr pa lwybr roedd Duw eisiau i mi ei ddilyn – addysg neu'r weinidogaeth. Felly es i i wneud blwyddyn fel cynorthwyydd addysgu Mathemateg i gael mwy o brofiad, a helpodd hynny fi i benderfynu o blaid gweinidogaeth! Felly, gwnes i gais i interniaeth UBC a dysgu llawer trwy'r profiad cyn dechrau ar astudiaeth ddiwinyddol yng Ngholeg Bedyddwyr Caerdydd.

Bendigedig. A Hannah, rydyn ni'n gwybod eich bod chi wedi dilyn llwybr tebyg. Eleri, beth oedd eich camau nesa chi te?

E: Roeddwn i wedi disgwyl gwneud astudiaethau pellach, ond fe gaeodd Duw y drws hwnnw ac agor un arall gyda chwmni yswiriant yng Nghaerdydd. Ond cafodd fy nhîm ei ddiswyddo yn ôl yn yr hydref ac roedd yn edrych fel y gallai Duw fod yn dweud ei bod yn amser i mi fynd yn ôl i astudiaethau polisi cymdeithasol. Ac yn ddigon rhyfedd, ces i swydd gyda Chymorth Cristnogol a chefais fy nerbyn ar gwrs meistr rhan-amser, a'r ddau beth yn cyd-fynd yn dda dros ben!

Gwych iawn. Felly, gan fod rhai blynyddoedd wedi mynd heibio, wrth i chi edrych yn ôl ar eich amser ar y flwyddyn fwlch, beth fyddech chi'n ei ddweud yw'r prif bethau a ddysgoch chi o'r profiad hwnnw?

H: Rwy'n meddwl i bob un ohonon ni un peth mawr oedd pa mor hanfodol yw gweithio fel tîm a gweithio'n dda ochr yn ochr â phobl eraill! Roedd gan bob un ohonom sgiliau a chryfderau gwahanol felly roedd yna broses bwysig o weithio allan beth oedd fy rhai i, beth oedd eu rhai nhw...

G: Yn union. Gall fod mor hawdd rwy'n meddwl i gael rhyw feddylfryd o fod yn 'fand un dyn', ond mewn gwirionedd pan fyddwch yng nghanol pethau rydych chi'n sylweddoli bod angen i chi rannu'r baich. Ac mae hefyd yn gwneud cymaint o wahaniaeth o ran prosesu pethau.

E: Roedd hefyd yn baratoad da iawn ar gyfer bywyd go iawn – pethau fel cymryd rhan ym mywyd arferol yr eglwys, gorfod dod i arfer â ffyrdd amrywiol pobl o fynd ynghylch pethau, a jest bod yn Gristion mewn 'bywyd go iawn' yn hytrach nag yn y Brifysgol neu gartref. Wnaeth y peth wir osod sylfeini pwysig i mi fel Cristion.

G: Ac un peth arall – ces i'r cyfle i bregethu am y tro cyntaf, dim ond pythefnos i mewn i'r flwyddyn ac yna drwy gydol y flwyddyn! Sy'n teimlo'n rhagluniaethol, o ystyried yr hyn rwy'n ei wneud nawr.

Diolch am rannu hynny. Felly beth ydych chi'n meddwl bydd y dyfodol yn dal i chi?

G: Wel, dim ond Duw sy'n gwybod beth sydd ganddo i lawr y lôn i ni ond rwy'n parhau â'm astudiaethau a gobeithio y bydda i wedyn yn mynd i mewn i'r weinidogaeth gyda'r Bedyddwyr.

E: Roeddwn i'n ei chael hi'n anodd i ddechrau gyda'r pandemig a bod mewn dinas newydd i ymgartrefu mewn eglwys, ond rydw i bellach wedi dod o hyd i un, ac mae hynny yn fendith fawr. Felly rhwng hynny, setlo i mewn i'm swydd a'm cwrs meistr rwy'n teimlo bod gen i ddigon i ganolbwyntio arno am y tro!

H: Ar hyn o bryd rwy'n gwneud hyfforddiant cenhadol fel rhan o'm interniaeth eglwys, ac rwy'n teimlo galwad i genhadaeth yng Nghymru. Bydd angen i mi weld pa fath o weinidogaeth genhadol y mae Duw yn fy ngalw iddi....

Diolch i chi i gyd a byddwn ni'n parhau i weddïo dros law Duw ar eich bywydau chi.

Ydych chi'n nabod rhywun ifanc rhwng 19 a 25 oed sy'n meddwl am y dyfodol ac a allai fod â diddordeb mewn ymuno â Thîm i Gymru yn 2022/23? Bydd ceisiadau yn cau ym mis Mai; mae croeso i unrhyw un gysylltu â carwyn@ubc.cymru am sgwrs anffurfiol.

Defnyddio'r adeilad i gyrraedd y gymuned...

Mae Ieuan Wyn Jones yn adnabyddus fel Dirprwy Brif Weinidog Cymru tan 2011, ond llai adnabyddus yw ei weithgarwch ef a chriw o bobl leol eraill yn ardal Llangefni gyda chapeli'r dre – yn agor cwys newydd i'w dyfodol.

'Roedd pump o gapeli anghydffurfiol yma yn Llangefni yn draddodiadol', meddai Ieuan, 'ond fel mewn sawl rhan o Gymru, edwino'n raddol oedd yr hanes.' Pan gaeodd capel Ebeneser y Wesle rhyw ddeng mlynedd yn ôl, dechreuodd e a nifer yn yr ardal ddechrau meddwl am y dyfodol. Roedden nhw'n gallu gweld y ffordd roedd pethau'n mynd, a'r perygl y byddai'r capeli i gyd yn cau un wrth un o barhau ar y trywydd presennol. 'Ac at hynny, roedd hi wedi dod yn sefyllfa weddol druenus o ystyried bod yr adeiladau hyn wedi eu codi ar gyfer gweithgarwch gydol yr wythnos, ond eu bod nhw bellach yn cael eu defnyddio am ryw ddwy awr yn unig ar y Sul', ychwanega.

Yr oedd y Bedyddwyr a'r Annibynwyr yn y dref yn cyd-addoli ers rai blynyddoedd, ac yna agorwyd trafodaethau gydag enwadau eraill. Roedden nhw am estyn allan – roedd cymaint o grwpiau anghenus yn y dref a chyfle o uno i wneud rhywbeth newydd a gwneud yr eglwys yn fwy perthnasol i'r gymuned. O ystyried adeiladau'r gwahanol gapeli-a hyd yn oed ystyried adeilad newydd penderfynwyd mai safle Moreia'r Presbyteriaid oedd fwya addas i'w haddasu at anghenion cymunedol. Bu ymgyrch i godi arian ac o dipyn i beth daeth yr incwm angenrheidiol o sawl cyfeiriad, gan gynnwys gwerthu adeilad Penuel y Bedyddwyr. A nawr yng ngwanwyn 2022 mae'r gwaith o newid adeilad Moreia i fod yn ganolfan aml-ddefnydd – Canolfan Glanhwfa – yn mynd rhagddo.

'Mae gyda ni dri phartner eisoes sydd am ddefnyddio'r adeilad yn ystod yr wythnos,' esbonia Ieuan. 'Age Cymru (Gwynedd a Môn) fydd yn rhedeg canolfan dydd i bobl hŷn , Bwyd Da Môn sydd am redeg clwb cinio yn darparu bwyd ffres i bobl ar incwm isel a gwersi coginio, ac yna Tŷ Cana, fydd yn defnyddio'r gofod ar gyfer gwaith cerddorol gyda phobl ifanc. Felly bydd yna weithgarwch parhaus yma!'

Mae Ieuan yn awyddus i esbonio bod yr eglwysi'n frwd i sicrhau nad canolfan gymunedol yn unig fydd hon; *'mae'r ochr genhadol yn bwysig iawn i ni. Bydd Canolfan Glanhwfa yn gwasanaethu'r gymuned ond 'dan ni fel eglwys eisiau i'r adeilad yma ar ei newydd wedd fod yn fodd i bontio rhwng y capel a'r gymuned mewn ffordd doedd yr hen adeiladau ddim yn caniatau. Mae gynnon ni eisoes wasanaeth i blant rhyw unwaith y mis sydd yn fwy anffurfiol, a 'dan ni wedi gweld ffrwyth o hynny. Y gobaith yw bydd hyn yn agor ffordd newydd, arloesol a gwahanol i ni fel eglwysi anghydffurfiol yn ein cymunedau.'*

Ieuan Wyn Jones

Newyddion o blith....
Undeb Bedyddwyr Cymru

Cynhadledd flynyddol UBC yn ôl!

Mae croeso i bawb i heulwen Caerfyrddin eleni am gyfle llawen o ailgysylltu gyda'n gilydd. Ar ddydd Gwener 24ain Mehefin cawn gyfle i ddod at ein gilydd fel Undeb ar gyfer ein cynhadledd flynyddol, ac yna bydd rhaglen amrywiol ac anffurfiol i'r teulu cyfan ar ddydd Sadwrn 25ain Mehefin a fydd yn ein helpu ni i wrando ar Dduw!

Mae croeso i bawb i'r dydd Gwener, pan fyddwn yn sefydlu ein Llywydd newydd, y Parchedig Ddr Densil Morgan.
Bydd rhaglen y diwrnod yn rhedeg rhwng 10am a 6pm a bydd pryd o fwyd gyda'r nos gyda'n gilydd yn dilyn. Disgwylir i docynnau fod tua £45 y pen gan gynnwys cinio a swper.

Bydd ein diwrnod 'Gweddi, Gŵyl a Hwyl' ar ddydd Sadwrn 25ain, a gynhelir ar y cyd â SWBA a BMS, yn ddiwrnod arbennig i deulu cyfan y Bedyddwyr i gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau o amgylch y thema 'Clywed Llais Duw'. Bydd y diwrnod cyfan yn addas i deuluoedd gyda gweithgareddau i bob oedran a chyfle i adnewyddu cyfeillgarwch gyda ffrindiau hen a newydd. Yn ysbryd yr Eisteddfod mae'r diwrnod yn cynnig dewis i chi fynychu cymaint neu cyn lleied o weithgareddau ag y dymunwch gyda'r pwyslais ar 'ddod at ein gilydd':

- Ymgysylltu'n greadigol â'n darlleniad o'r Beibl wrth i ni glywed Duw yn siarad trwy Ei Air.
- Os ydych chi'n hoff o ganu, ewch draw i'r côr cymunedol!
- Byddwch yn greadigol yn y prosiect celf cymunedol.
- Ymunwch â hwyl a gemau yn y Neuadd Chwaraeon.
- Ewch yn ddyfnach mewn cyfres o sgyrsiau byr ar faterion amserol gyda siaradwyr gwadd.
- Neu efallai eich bod chi eisiau hufen iâ yn yr haul a dal i fyny gyda ffrindiau – gallwch chi wneud hynny hefyd heb deimlo y dylech chi fod yn rhywle arall!

Bydd manylion cofrestru yn cael eu cyhoeddi yn e-bost Pigion y mis nesaf a'r Bwletin (ar gyfer gweinidogion ac ysgrifenyddion), ond am y tro nodwch y dyddiadau: Dydd Gwener a dydd Sadwrn 24-25 Mehefin yng nghanolfan Halliwell, Caerfyrddin.

Cyngor 2022: 'rhaglen waith gyffrous'

'Mae hon yn rhaglen waith gyffrous a llawn gweledigaeth!' 'Rwy'n gyffrous i fod yn rhan o Undeb sy'n camu ymlaen mewn ffydd!' Dim ond rhai o'r sylwadau gan aelodau'r Cyngor wrth i Gyngor Unedig UBC gyfarfod ar nos Fercher 23 Mawrth i adolygu'r rhaglenni sydd ar waith ar draws yr Undeb. Mewn cyfnod heriol, amlygodd yr adroddiadau gan y Byrddau a'r Pwyllgorau y cynnydd sy'n cael ei wneud i'n galluogi ni i gyd 'i fod yn dystion effeithiol a chyfoes i'n Harglwydd a'n Gwaredwr Iesu Grist' yng Nghymru a thu hwnt. Rhai o'r uchafbwyntiau a grybwyllwyd oedd bod:

- 6 gweithiwr cenhadol i Gymru bellach ar ein rhaglen VISA (gweler t.3)
- 4 myfyriwr wedi eu cyflwyno am hyfforddiant gan UBC
- Dull newydd arloesol o ymdrin ag adeiladau capeli gwag wedi ei fabwysiadu, gan gynnwys asesu eu potensial i wasanaethu tystiolaeth Fedyddiedig yng Nghymru
- Gwaith diwyd gan: yr Ymddiriedolwyr i'n symud i statws CIO; gan Fwrdd y Weinidogaeth ar ddatblygu Côd Ymddygiad Gweinidogol newydd, a chan y Pwyllgor Cyllid ar y Gyllideb Gyfan
- Strategaeth Gyfathrebu newydd

Cymeradwywyd enwebiadau ar gyfer Is-lywyddion 2022-23, sef Mr Bill Davies a'r Parch Tim Moody ac rydym yn gweddïo y byddent yn gwybod llaw Duw gyda nhw wrth iddyn nhw baratoi i'n harwain ymlaen.

Cychwyn cwrdd gweddi misol UBC

Os hoffech ymuno â grŵp o bobl o bob cwr o Gymru i weddïo dros genhadaeth a gweinidogaeth yn ein gwlad yn rheolaidd, fe'ch gwahoddir yn gynnes i ymuno â ni ar zoom unwaith y mis amser cinio dydd Mawrth. Byddwn yn gweddïo o 1pm am 30 munud gan ddefnyddio'r ddolen zoom hon bob tro: https://us06web.zoom.us/j/82102583626 . Gweler www.ubc.cymru/gweddi am ddyddiadau.

Twf Bedyddwyr yn fyd-eang



Erbyn hyn mae 51 miliwn o Fedyddwyr ledled y byd, nifer sydd wedi tyfu o 36 miliwn yn 2009, yn ôl Cynghrair Bedyddwyr y Byd, y mae UBC yn rhan ohoni. Mae'r twf syfrdanol hwn yn deillio'n bennaf o'r cynnydd yn Affrica, lle mae 21 miliwn o Fedyddwyr erbyn hyn, a hynny'n bron i hanner y cyfanswm yn fyd-eang. Bu twf sylweddol hefyd mewn gwledydd mor wahanol i'w gilydd â'r Philippines, Gwlad Belg a'r Ariannin, gan guddio dirywiad yn y rhan fwyaf o Ewrop a Gogledd America.
Os oes yna'r fath beth â'r Bedyddiwr 'cyffredin' yn y byd, mae'n debygol erbyn hyn o fod yn fenyw ifanc, ddu, dlawd o Affrica. Yn wir, mae'r ystadegau diweddaraf yn dangos bod dros 17 miliwn o Fedyddwyr yn wynebu diffygion bwyd neu newyn yn eu gwledydd, tra bod dros filiwn yn byw mewn gwledydd lle mae'r llywodraeth yn gosod cyfyngiadau neu'n erlid y ffydd Gristnogol. Felly mae digon i ni weddïo yn ei gylch dros ein brodyr a'n chwiorydd ledled y byd, hyd yn oed wrth i ni gael ein calonogi gan yr arwyddion clir o dwf.
Mae rhagor o ystadegau ar gael yma: www.issuu.com/baptistworldalliance/docs/baptist_world_trends

Y Beibl ymhlith gwerthwyr gorau Ffrainc

Bu bywyd yn ystod y cyfnodau clo yn Ffrainc yn debyg iawn i fel ag oedd ym Mhrydain. Ond roedd newidiadau ysbrydol yn digwydd i lawer o bobl gyffredin yn Ffrainc ac yn ddigon syfrdanol, aeth y Beibl i rif un yng ngwerthiant llyfrau 'Athroniaeth a Chrefydd'. "Yn ystod Covid, bu cynnydd enfawr yn nifer y bobl oedd yn prynu Beiblau," esbonia Jérémie, myfyriwr diwinyddiaeth a gefnogir gan BMS. "I mi, roedd yn dangos bod llawer mwy o bobl yn gofyn cwestiynau i'w hunain am yr hyn sy'n rhoi ystyr i'w bywydau."

Mae BMS yn ystyried Ffrainc yn un o'r gwledydd lleiaf efengylaidd y maent yn gweithio ynddynt. Dyna pam fod John a Sue Wilson, gweithwyr BMS yn eglwys Jérémie, wedi cael eu calonogi gymaint gan y ffordd agored y maent wedi gweld pobl yn ymagweddu tuag at Gristnogaeth yn ystod y pandemig. Roedd y ddau yn synnu ac wrth eu bodd gan nifer o gyfarfodydd annisgwyl fel un a gawsant gyda Lucas*, myfyriwr a drodd i fyny yn eu heglwys gyda Beibl yr oedd wedi'i brynu yn ystod y cyfnod clo ac yr oedd angen help arno i'w ddeall.

Mae'n ymddangos bod y pandemig yn sicr wedi chwarae rhan fawr yn y ffresni y maent wedi'i deimlo mewn sgyrsiau diweddar gyda phobl, ond maent yn credu bod rhywbeth ar waith yma sy'n fwy na dim ond gofid ar ôl cyfnodau clo hir ac anodd. Mae to iau sydd heb ei blino gan ragdybiaethau am yr eglwys yn dechrau gofyn cwestiynau mawr bywyd. "Efallai fod rhai pobl wedi gweld crefydd yn eu teuluoedd, ond mae'n debyg nad oeddent erioed wedi profi ffydd drostynt eu hunain," meddai Sue.

Geiriau gan Hannah Watson, lluniau Jeremie Lockel. Mae pwyntiau gweddi BMS ar gyfer Ffrainc ar gael yma: www.issuu.com/bmsworldmission/docs/engage_issue_52_isuu/s/14220101

Ac ar draws...

Y Byd

Deg munud yng nghwmni...

Ann Bowen Morgan

Mae yna bobl o bob math yn ein heglwysi, a storïau gwahanol o sut mae Duw wedi gweithio yn eu bywydau. Y tro hwn, dyma gwrdd ag un o'n hymddiriedolwyr fel Undeb....

Diolch am y sgwrs, Ann. Sut fath o fagwraeth gest ti felly ac yn lle?

Magwraeth Gristnogol a Chymraeg oedd hi, yn Rhyl ar arfordir y Gogledd. Roedd cefndir Bedyddiedig gyda Mam ond Annibynnwr oedd nhad, ac felly i Carmel, Eglwys yr Annibynwyr yr aethon ni fel teulu. Ro'n i'n ffodus o fynychu Ysgol Glan Clwyd yn ei dyddiau cynnar hefyd.

Ac ai trwy hynny y dest ti'n Gristion? Sut fyddet ti'n disgrifio dy daith fel Cristion wedi hynny?

Wel, mi oedd yn gefndir trwyadl Gristnogol, ond wedi gadael gartre mi wnes i wrthgilio mewn gwirionedd. Ond yna pan oeddwn yn fyfyriwr yn yr ail flwyddyn roedd Undeb Cristnogol gweithgar iawn ym Mangor, a thrwy eu tystiolaeth nhw y derbyniais i Iesu fel gwaredwr. A phroses raddol o dyfu fel Cristion wedyn, trwy wahanol bethau. Dwi'n cofio cyfnod hyfryd iawn er enghraifft pan fuon ni'n byw ym Mhenygroes, ger Rhydaman a'r gŵr yn weinidog yng Nghalfaria, Tabor a Phenrhiwgoch. Roedd dylanwad yr Apostoliaid yn gryf yno a ges i'r fraint o weld llawer o'r ieuenctid yn dod i gredu a bwrlwm ar yr addoli.

Dyna beth yw gwefr. Ac mi rydych chi wedi cario baich dros y to iau ar hyd eich oes, on'd ydych?

Wel, do. Athrawes oeddwn i yn fy ngyrfa, yn dysgu mewn ysgolion cynradd yn Llandudno ac yna yma yn Llambed. A dwi'n dal i ddysgu i raddau, ond Cymraeg i oedolion yw'r maes erbyn hyn.

Rwyt ti'n weithgar iawn yn dy fro, yn yr eglwys ac yn y gymuned.

Mae Llambed yn lle clos iawn, ac rydyn ni'n ffodus hefyd yn yr eglwysi lle mae Densil fy ngŵr yn weinidog. Cylch o chwech o gapeli, a dwi'n ceisio bod ynglŷn â'r gwaith i gyd fel y galla i. Noddfa, Llambed yw'r capel lle dwi'n aelod a fi hefyd yw'r ysgrifennydd ac un o'r organyddion yno. Mae'n dda wedyn cael cyfrannu i'r gymuned ehangach ar gyngor y dre a'r ganolfan Deuluol– a do, ges i'r fraint arbennig o fod yn Faer yn 2018-19 hefyd! Mae trefnu gweithgareddau drwy'r Gymraeg yn bwysig iawn i mi.

A beth yw dy rôl ddiweddaraf o fewn yr Undeb a dy weledigaeth yno?

Gofynnwyd i mi gymryd yr awennau fel Llywydd y Gymanfa ar gyfer eleni. Dod i mewn ar ddiwedd cyfnod Covid wnes i, ac mae heriau yn sgil hynny. Ond rydyn ni wedi gweld ffrwyth hefyd, er enghraifft cyfres o gyfarfodydd gweddi zoom sy'n dal i fynd, ac sy'n ffordd dda o ddod â phobl ynghyd ar draws ardal ddaearyddol eang iawn. Mae'n dda gweld wynebau newydd yn dod i rheiny, ac mae'n fodd o adeiladu undod rhyngom.

Sut gallwn weddïo drosoch chi a'ch gwaith, Ann?

Gweddïwch am weithiwr ieuenctid i ni yma yn ardal Llambed; mae Cadwyn Teifi yn ei lle a rydym wedi hysbysebu heb lwyddiant hyd yn hyn. O ran y Gymanfa, gweddïwch dros sefyllfa'r ysgolion Sul a'r genhedlaeth goll ac yna o ran yr Undeb bydd angen dau ymddiriedolwr newydd arnom eleni! Diolch.

Ydych chi'n adnabod rhywun allai wasanaethu fel ymddiriedolwr UBC? Ebostiwch judith@ubc.cymru am fanylion pellach.

Cynhyrchir Y NEGESYDD dair gwaith y flwyddyn gan Undeb Bedyddwyr Cymru. Serch hynny, ni ddylid cymryd safbwyntiau a fynegir yn y cylchgrawn hwn fel petaent yn cynrychioli barn swyddogol yr Undeb ar unrhyw fater. Swyddfa gofrestredig:

Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EQ

Ffôn: 0345 222 1514 [9-5 Llun - Gwener]

post@ubc.cymru www.ubc.cymru

UBC BUW